Cyngor Cymuned Ganllwyd

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mehefin 14eg 2017.**

**Presennol.**

Cyng Chris Dixon,Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts, Cyng C.Edwards.Cyng G.Hughes

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Jones Cyng P.Jenkins . Cyng G.Edwards

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cofnodion cyfarfod Mai 10fed 2017**.

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Dixon ac eilwyd gan Cyng Roberts.

**Materion yn codi.**

**Toiled cyhoeddus y Ganllwyd**—Mae'r cyngor cymuned wedi derbyn anfoneb am £250 sef rhan o'r costau i'r alluogi y toiled i barhau yn agored gan Cyngor Gwynedd.

Clerc i drefnu talu'r bil.

**Y Bothy**- Cyng Dixon wrthi'n cadarnhau pwy yw'r cyswllt re Penthros Isaf. Ar ol cael y wybodaeth fe fydd Cyng Daixon yn ysgrifennu atynt i drafod materion yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dal i ddisgwyl ymateb gan y cyswllt.

**Awdit 2016-** Dal i ddisgwyl ymateb gan Mr Evans Swyddfa Awdit Cymru.

**Datganiad derbyn swydd-** Pawb wedi arwyddo'r ffurflen derbyn swydd. Bydd y Clerc yn cadw meddiant o'r ffurflenni.

**Coed afalau-** disgwyl clywed gan swyddogion y Parc os yw y cais am 4 coeden wedi bod yn llwyddianus.

**Cynghorwr Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Clerc yn cadarnhau fod y cyngor cymunedol am dderbyn £575 gan Gyngor Gwynedd tuag at cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yr ardal.

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y cyngor i ddyrannu arian ychwanegol hyd at £225 i wneud cyfanswm o £800 i wneud yn siwr fod yna ddigon o arian ar gael i gyflawni y gwaith yma.

Cyngor i gysylltu hefo Mr Thompson er mwyn penderfynnu ar pa waith sydd rhaid cael blaenoriaeth.

Cyfarfod pwyllgor llwybrau cyhoeddus-Clerc i drefnu cyfarfod o'r pwyllgor naill ai ar yr 6ed neu 13eg o Orffennaf 2017.

**Safle We**

Yn dilyn trafodaeth ar y pwnc (gan gynnwys y gost o sefydlu gwefan) cytunodd y cynghorwyr y byddai'r cyngor yn elwa trwy gael gwefan.

Clerc i wahodd dylunydd y wefan Mr E.Ap Gomer i gyfarfod Gorffennaf i drafod y mater ymhellach.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc Mis Mai 2017

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£7249.81** |
| **Derbyniwyd:** | **Ad taliad TAW** | **£44.00** |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Sioe Ganllwyd** | **£ 50.00** |
| | **Capel Libanus** | **£50.00** |
| | **Neuadd Ganllwyd** | **£400.00** |
| | **E.W.Owen (cyf)** | **£180.00** |
| | **J.Roberts (cyf)** | **£46.00** |

| | |
|---|---|
| **Diwedd y mis** | **£6467.81** |

Cyngor yn cutyno fod yr uchod yn gywir.

Derbyniwyd rhodd o £200 gan Matt Ward.

Clerc ar Cadeirydd yn arwyddo copiau o ddogfennai yn ymwneud ar Awdit 2017.

**Llythyrau ac E-byst.**

**Ysgol y Ganllwyd**- derbyniwyd llythyr gan yr ysgol ynglyn achlysur 'cau'r ysgol- diwrnod i gofio ar ddydd Sadwrn 8fed Gorffennaf 2017.

Mae croeso i rhywun gyfrannu tuag at yr achlysur.

**Un Llais Cymru**—bydd Cyng Dixon yn cynrychioli cyngor Ganllwyd yn cyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.

**Cyngor Gwynedd-** Derbyniwyd rhaglen gwaith (priffyrdd)yn yr ardal mis Mehefin 2017.

**Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru-**Gwahoddir aelodau'r cyngor gymeryd rhan yn ymgynghoriad yr awdurdod i gynllunio'r modd y dylai gwasanaethau tan ac achub yn Ngogledd Cymru gael eu datblygu yn y blynyddoedd nesaf

Os bydd rhywun a diddordeb i gyfrannu mae yna rhagor o wybodaeth ar www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Dixon am gysylltu gyda Cynghorwr Sir P.Jenkins am safon y gwaith sydd wedi cael ei gwblhau gan y Cyngor Sir yn ardal Beech Road.

Mae'n debyg nad oedd safon y gwaith yn dderbyniol a bod yna lawer mwy i wneud i ffosydda  gwteri'r ardal.